MAE LLYGAID JEHOFAH YN EIN GWYLIO

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi nad yw Duw yn ddi-hid tuag at yr hyn a wna unigolion. Dangoswch fel bu iddo ymateb i ddrwgweithredu yn y gorffennol a pham. Ysgogwch y gynulleidfa i wneud yr hyn sy'n iawn yng ngolwg Duw

MAE LLAWER YN GWEITHREDU FEL PETAI DUW YN FARW (4 mun.)

Mae llawer, fel Eliffas gynt, yn byw eu bywydau fel pe na bai Duw yn eu gweld nhw nac yn gofalu (Job 4:18; Salmau 14:1)

Mae angen gwylio disgyblion ysgol a'r rhai sy'n cael eu cyflogi, rhag iddynt dwyllo, dwyn, neu segura yn lle gweithio

(*g*86 6/8 10; *g*89 10/8 28)

Mae pethau megis trosedd cyfrifiadurol, siopladrata, twyll treth, a dwyn amser cyflogwr wedi dod yn gyffredin (*w*88 2/15 3-4)

Mae llawer yn credu fod Duw yn bodoli ond heb gredu ei fod yn gofalu ac y bydd yn gweithredu

Nid yw Duw yn ffactor mwyach yn eu hymddwyn bob dydd nac yn eu penderfyniadau (*sh* 329-30)

Faint mae Duw yn ei weld o'r hyn sy'n digwydd ar y ddaear a faint mae e'n gofalu amdanynt? A fydd yn gwneud rhywbeth ynglŷn â'r hyn a wêl?

MAE JEHOFAH YN GWELD POPETH (6 mun.)

'Does dim amheuaeth yn y Beibl nad yw llygaid Jehofah arnom oll (2Cron 16:9; Salmau 11:4, 5)

'Ddylai cydnabod fod Jehofah yn gwylio'r drwg a'r da ddim gwneud inni deimlo ein bod yn byw mewn gwladwriaeth heddlu, dan amheuaeth (Job 7:20; Diar 15:3)

Gwylio er ein lles mae Jehofah; gall weld pob gweithred o'n heiddo (Sech 4:10; 1Pedr 3:12; *it*-1 789)

Dylai hyn oll fod yn rhybudd inni—i fod yn ochelgar

Ble bynnag 'rydym, mae'r nef yn ein gwylio

Na foed inni feddwl yr awn heb ein gweld mewn rhyw le cyfrinachol, gan osgoi sylw (Esec 8:12)

Fe wêl Jehofah y da a'r drwg a wnawn a'u hystyried (Jer 32:19; Heb 4:13)

Beth a wêl yn eich achos chi?

A yw eich dull bywyd chi'n dderbyniol gan Jehofah?

'Ydi Jehofah yn edrych yn ffafriol arnoch chi?

FE WÊL JEHOFAH Y RHAI DRWG A GWEITHREDU'N ADDAS (23 mun.)

Bydd *dwyn* yn digwydd yn gyfrinachol fel rheol gan dybio nad oes neb yn gwylio (In 3:19, 20)

Meddyliai Achan y gallai cadw'i ladrad yn gyfrinach. Fe'i datgelwyd gan Jehofah a gweithredu barn arno (Jos, pennod 7; *w*86 12/15 19-20)

Sicrheir lladron fod melltith Jehofah arnynt fel y gwelir yn hanes y sgrôl yn ehedeg yn llyfr Sechareia (Sech 5:1-3; *pm* 210-11)

Ni oddefir *balchder a thrahauster* yng ngolwg Duw (Salmau 5:5)

Daeth Usseia yn ffroenuchel a thrawsfeddiannu swyddogaeth offeiriadol; fe'i trawyd â'r gwahanglwyf gan Jehofah (2Cron 26:16-21)

Dangoswyd cosb Duw ar y rhai a geisiai ogoniant iddynt eu hunain yn ei ymwneud â Shebna, swyddog Heseceia, oedd wedi ymgolli mewn naddu claddfa ogoneddus iddo'i hun. Gwelodd Jehofah ef, a'i 'yrru o'i swydd' a'i freintiau (Eseia 22:15-24; *it*-2 913 [Shebna]; *w*81 10/1 25-31)

Bydd Jehofah yn difetha'r *rhai sy'n dweud celwydd* (Salmau 5:6)

Mae'n sylwi arnynt fel nad ydynt yn osgoi cosb (Diar 19:5)

Pan ddywedodd Gehasi gelwydd oherwydd trachwant, nid anwybyddu hynny wnaeth Jehofah ond cosbi Gehasi trwy drosglwyddo gwahanglwyf Naaman iddo (2Bren 5:20-27)

Rhoddwyd sylw prydlon gan Jehofa i *erwindeb, angharedigrwydd, anhaelioni* yn achos Nabal

'Roedd Nabal yn gyfoethog ond yn ddyn caled ac anhael. 'Wnâi e ddim dangos caredigrwydd at Ddafydd er gwaethaf ei gymorth cariadlon

'Doedd dim angen i Ddafydd weithredu yn erbyn Nabal oherwydd angharedigrwydd hwnnw. Rhoddodd Jehofah ergyd farwol i Nabal gan achosi ei angau (1Sam, pennod 25)

Gweithredodd Jehofah yn gyflym i gynghori Cain i ymwrthod â'i lwybr llofruddiol oherwydd Ei fod yn casau *llofruddiaeth* a hyd yn oed y llid sy'n arwain at lofruddiaeth. Yna fe weithredodd Jehofah ar unwaith wedi i Cain ladd ei frawd (Gen 4:5-7, 10, 11)

Lladdodd Abimelech feibion Gideon; gwelodd Jehofah hynny, a gweinyddwyd cosb ganddo Ef (Barn, pennod 9)

Galwodd Joseff *odineb* yn bechod "yn erbyn Duw" (Gen 39:9)

'Roedd dau fab Eli yn euog o anfoesoldeb a phechodau eraill. Penderfynodd Jehofah eu rhoi i farwolaeth (1Sam 2:12, 22; 3:11-14)

’Roedd Sedeceia ac Ahab, gau broffwydi, yn godinebu’n gyson. Barnedigaeth Jehofah: ‘Rhostiodd’ brenin Babilon nhw ‘yn y tân’ (Jer 29:21-23)

Puteindra a godineb yw’r pechodau mwyaf cyffredin heddiw

Mae hyd yn oed gweision Duw yn cwympo

A gredent hwy, gweision Duw, y gallent osgoi cosb am weithredoedd o’r fath? nad oedd neb yn eu gweld?

Dengys y Beibl fod Duw yn ymwybodol o gamymddwyn a phechodau cyfrinachol (*w*85 4/15 10-20)

Mae’r enghreifftiau hyn yn dangos nad yw Duw yn anwybyddu gweithgarwch rhai drwg ond mae’n gwylio gyda barnedigaeth mewn golwg (1Tim 5:24)

MAE LLYGAID JEHOFAH HEFYD YN GWYLIO’R RHAI DA I’W CYWIRO, EU CYNORTHWYO, A’U BENDITHIO NHW (7 mun.)

’Roedd ysgrifennydd Jeremeia, Baruch, yn ddyn da yn y bôn, ond fe’i denwyd gan *feddylfryd materol* ar amser argyfyngus yn hanes Israel. Rhybuddiodd Duw Baruch: ‘Paid â cheisio pethau mawrion i ti dy hun’ (Jer 45: 1-5) ’Roedd Jehofah yn ei wylio er lles iddo (*w*80 3/1 19-21)

Cynorthwywyd Cornelius gan Dduw oherwydd llawer o *bethau da a wnaeth* (Act 10:2, 4)

Fe’i gwobrwywyd â’r fraint o fod y Cenedlddyn dienwaededig cyntaf i gael ei eni o’r ysbryd (Act 10:44-48)

Fe sylwa Duw hyd yn oed ar y pethau bach a wnawn sy’n dda er na fydd dynion yn sylwi arnynt efallai

Er gwaethaf ei farnedigaeth lem yn erbyn tŷ Jeroboam, caniataodd Jehofah feddrod i un o feibion Jeroboam “gan mai ynddo ef o blith teulu Jereboam y cafodd ARGLWYDD Dduw Israel ryw gymaint o ddaioni” (1Bren 14:1-18)

Sylwyd ar gyfraniad bychan y weddw dlawd (Lc 21:1-4)

Cofir am weithredoedd caredig gan Jehofah (Mth 26:6-13)

’WNEWCH CHI ELWA O WYBOD FOD LLYGAID JEHOFAH ARNOCH? (5 mun.)

Pan fo Jehofah yn eich cywiro a’ch helpu drwy gyfrwng ei gyfundrefn neu henuriaid, ’fyddwch chi’n gwerthfawrogi ei wyliadwriaeth cariadlon?

Bydd cydnabod fod Jehofah o’n blaen yn gyson ac yn ein gwylio yn ein helpu i gadw rhag gwneud yr hyn sydd ddrwg a byw fel petaem ni ym mhresenoldeb Jehofah (Salmau 16:8; *w*85 9/1 5)

Dysgwn ein plant hefyd i sylweddoli fod Duw yn ymwybodol o’n holl weithgarwch ni (Salmau 11:4)

Os gwnawn yr hyn sydd yn anghywir, mae Duw yn ei weld ac fe fydd yn ei amlygu (Diar 24:12)

Os gwnawn yr hyn sydd yn iawn, cawn fendithion dwyfol a chyfran yn cynnal ochr Duw i’r ddadl sydd ’nawr o flaen y bydysawd (Salmau 18:20; Heb 6:10)

Yn fwy na dim, dylai’n cariad at Jehofah wneud inni fod eisiau gwneud yr hyn sy’n iawn fel y bydd llygaid Jehofah yn gweld daioni ynom

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. ’Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)